HALLT A CHROYW

Mae gorfod dyfeisio cylch o wersi o fewn un thema heb esgeuluso na gwneud cam ag unrhyw un o fyrdd agweddau'r Cwricwlwm yn peri cryn grafu pen ar brydiau.

Y tro hwn, mae *Gwaith Maes* yn cynnig cynnwys amrywiol sydd yn ddigon thematig i fodloni'r arolygwr mwyaf beirniadol ond sydd ar yr un pryd yn sicr o ddiddori plant. Beth sydd yn denu plant yn ddiffael fel hoelion at fagned? **Dŵr!** O'r pwtyn pum mlwydd yn camu'n benderfynol trwy'r pyllau glaw yn ei esgidiau gorau i'r llafnyn pymtheg yn cicio dŵr dros ei fêts ar y ffordd i'r bloc Gwyddoniaeth, fedr ieuenctid byth wrthsefyll ei demtasiwn.

Yn ôl un o hen Dribannau Morgannwg,

Mae Afon Rhymni dirion
Yn llifo, llifo'n gyson;
Er gweled llawer tro ar fyd,
Yr un o hyd yw'r afon.

Llyn Dinas, Gwynedd

Ond, diolch byth, fel cymaint o afonydd tebyg, nid yw Afon Rhymni "yr un o hyd." Diolch i'r newid yn niwydiant y cymoedd ac i lafur awdurdodau a gwirfoddolwyr, gall plant heddiw bysgota ynddi a'i mwynhau. Tan yn ddiweddar, fyddai neb yn meiddio breuddwydio am y fath beth, a'r atgof am afon lân, llawn bywyd, yn ddim amgen na chof gwerin o hen baradwys goll.

Po fwyaf y bydd disgyblion yn ei ddeall am ddŵr a'i bwysigrwydd i bawb a phopeth, po orau y byddant yn cyfrannu at ei warchod a'i drysori pan ddaw eu tro hwy i wneud mwy na chwarae ynddo.

Meira Shakespear